**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, y Rhyl ar 19eg Mai 2004 am 10 a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr F D Jones (cadeirydd) J Butterfield, M Ll Davies (sylwebydd), Sophia Drew, E C Edwards, A E Fletcher-Williams, I M German, M A German, D M Holder, N J Hughes, N. Hugh-Jones, E R Jones, D Jones, G Jones, P Jones, R E Jones, R J R Jones, G Kensler (Aelod lleol yn absennol), S Kerfoot -Davies, A Owens, F Shaw, D A J Thomas, S Thomas, K E Wells, C H Williams, P O Williams ac R Ll Williams.

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D A Thomas, K Hawkins a J A Smith.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Prif Swyddog Cynllunio (De) a Swyddog Gweinyddol (G Butler) a D B Jones (cyfieithydd).

**1279 MATERION BRYS**

**CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL**

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio wrth yr Aelodau fod pob Canllaw Cynllunio Atodol newydd a'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo ar gael gyda'i gilydd mewn ffolder tudalen rydd ac y bydd ar gael ym mhob Llyfrgell ac ar Wefan Sir Ddinbych.

Bydd pob Cynghorydd yn derbyn copi ar ôl yr etholiadau ar 18fed Mehefin 2004.

**1280 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a rannwyd o'r blaen) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac sydd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***

*(a)* *Cadarnhau argymhellion y Swyddogion sydd yn yr adroddiad hwn a chaniatáu neu wrthod caniatâd fel bo'n briodol, o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994, a / neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ynghylch y datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatáu

| Cais Rhif | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 30/2004/0188/AD | Arddangos arwydd ar wyneb adeilad wedi'i oleuo o'r tu allan, arwydd yn ymestyn wedi'i oleuo o'r tu allan, 6 (cyfanswm) o lifoleuadau yn lle'r rhai presennol ar y muriau blaen ac ochr. Tafarn Trefnant, Trefnant. Dinbych. |

41/2004/0074/PF

Codi estyniad deulawr gyda tho brig ar ochr ac estyniad unllawr to fflat gyda balconi dros du blaen ty annedd.
Llety Yr Eos Isa, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych.
Siaradwyr o'r Cyhoedd: Siaradodd Mrs Puhar (cymydog) yn erbyn y datblygiad.
Siaradodd Mr Williams (yr ymgeisydd) o blaid y datblygiad.
Yn amodol ar Amod Newydd 5.
5. RhaRhaid gosod gwydr na ellir gweld trwyddo ar bob ffenestr ar y wal gefn (gogledd orllewin) cyn bo neb yn byw yn yr estyniad a rhaid ei gadw felly ar ôl hynny.
Rheswm: Er mwyn mwynder trigiannol.
Nodyn i'r ymgeisydd
Dylech nodi fod llwybr cyhoeddus yn rhedeg ger y datblygiad. Rhaid peidio ag amharu ar y llwybr yn ystod y gwaith adeiladu.
Dymunai'r Cynghorwyr S Drew ac N Hugh Jones iddo gael ei gofnodi iddynt bleidleisio i wrthod caniatâd. Ymatalodd y Cynghorydd P O Williams rhag pleidleisio.

42/2003/ 1478/PF

Datganodd y Cynghorwyr I M German, M A German a Sophia Drew ddiddordeb yn y cais canlynol gan adael y Siambr pan oedd yn cael ei ystyried.
Yn amodol ar na dderbynnir ychwaneg o sylwadau erbyn 27ain Mai 2004 yn codi materion cynllunio nad ydynt eisioes wedi derbyn sylw yn yr adroddiad
Adeiladu anheddle ar wahân a mynedfa gerbydau newydd.
Tir yn 6 Rhodfa Heilyn, Dyserth, y Rhyl.

43/2003/1446/PF

Ffurfio ystafelloedd yn y nenfwd gyda ffenestri dormer ar yr ochr ddwyreiniol a newid defnydd tir drwy ddymchwel garej bresennol a chodi adeilad ar gyfer swyddfa ar yr ochr.
54 Linden Walk Prestatyn.
Pleidleisiodd y Cynghorydd N Hugh-Jones yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio.

43/2004/0235/PF

Adeiladu to brig ar estyniad lolfa to fflat yn y cefn.
19 Plas Uchaf Avenue Prestatyn.

43/2004/0293/PF

Ar ôl ystyried y diwygiad canlynol i'r adroddiad:-

- Mae'r llythyr yn cyflwyno sylwadau oddi wrth 28 Roundwood Avenue, Prestatyn
- Gofynnwyd am farn y Swyddog Cefn Gwlad ynghylch y Goeden Onnen - dim ymateb.

Codi estyniad to fflat yn y cefn a garej ar wahân.
26 Roundwood Avenue Rhyl.
Yn amodol ar Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd
Deallir y gallai ystlumod fod yn clwydo yn y garej bresennol neu yn y coed ger yr estyniad arfaethedig. Fe'ch hysbysir fod ystlumod yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth bywyd gwyllt yn y wlad hon. Gofynnir i chi geisio cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a fydd yn gallu dweud wrthych sut fyddai'r ffordd orau o wneud y gwaith ac a fydd angen gofyn am drwydded. Gellir cysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar 01352 706600.

| | |
|---|---|
| 43/2004/0365/PC | Ar ôl ystyried llythyrau oddi wrth Mr Tucker (nid Tudor fel sydd yn yr adroddiad) a'r ymateb i ymgynghori oddi wrth Gwarchod y Cyhoedd.<br>ParhauParhau i ddefnyddio tir ar gyfer arddangos a gwerthu cartrefi modur, carafannau modur a charafannau teithiol.<br>Gorsaf Betrol y Ffrith, Ffordd Victoria, Gorllewin Prestatyn. |
| 43/2004/0366/PF | Ar ôl ystyried rhagor o lythyrau gyda sylwadau oddi wrth Allan a Fay Booth, 14 Stoneby Drive. Ken a Pauline Edwards, 16 Stoneby Drive.<br>Codi estyniad gyda tho brig ar ochr eiddo.<br>21 Stoneby Drive Prestatyn.<br>Yn amodol ar Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd<br>Gofynnir i chi ymgymryd â'r datblygiad gan ystyried eich cymdogion ac awgrymir felly na ddylech weithio ar yr estyniad ar oriau anghymdeithasol, y dylech geisio peidio â gosod rhwystrau ar ddreifiau a llwybrau cymdogion na llosgi unrhyw wastraff ar y safle neu adael defnyddiau lle gallai gwynt godi llwch ayb.<br>Pleidleisiodd y Cynghorydd N Hugh-Jones yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio. |
| 44/2004/0310/ PF | (Cywiriad i Ymateb i Ymgynghori – Cyngor Tref Rhuddlan)<br>Codi cwt gofalwr newydd gydag adeilad derbynfa a thoiledau.<br>Castell Rhuddlan, Stryd y Castell, Rhuddlan, y Rhyl. |
| 44/2004/0357/PF | Codi lolfa haul yng nghefn ty annedd.<br>7 Grove Terrace, Princes Road, Rhuddlan, y Rhyl. |
| 46/2003/0400/PF | Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth yr Uwch Swyddog Cadwraeth.<br>Ailadeiladu cyn ysgubor i ffurfio 2 uned drigiannol.<br>Ysgubor Esgopty, Ffordd Dinbych Uchaf, Llanelwy.<br>Yn amodol ar Amod Newydd 9.<br>9. Cyn bo neb yn byw yn un o'r anheddleodd a ganiateir drwy hyn rhaid dymchwel pob un o'r adeiladau allanol yn union i'r dwyrain o'r anheddleodd arfaethedig ac sydd ar dir o dan reolaeth yr ymgeisydd a rhaid adfer y tir er mwyn darparu mannau mwynder a / neu barcio yn unol â'r manylion a fydd yn cael eu cyflwyno i, ac a fydd yn derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig oddi wrth, yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y datblygiad.<br>Rheswm: Er mwyn mwynder gweledol a thrigiannol.<br>Pleidleisiodd y Cynghorydd S Drew yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio. |
| 01/2004/0350/PF | Codi estyniad llawr cyntaf, newid garej yn stydi a chodi garej ddwbl.<br>14 Ffordd Caledfryn, Dinbych. |
| 05/2004/0373/PF | Estyniad lolfa haul llawr cyntaf i anheddle bresennol.<br>2 New Inn Terrace, Glyndyfrdwy, Corwen. |

23/2004/0191/PF

Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth y Pennaeth Cludiant a Seilwaith.
Codi estyniad a newid anheddle presennol, newid ysgubor i greu lle byw ychwanegol, gosod tanc trin ac adeiladu mynedfa newydd (manylion diwygiedig yn lle'r rhai a gafodd eu cymeradwyo o dan ganiatâd cynllunio côd rhif 23/2003/1092/PF
Ty'n Ddol Llanrhaeadr YC Dinbych.

**GWRTHODIADAU**

47/2004/0181/PC

Cadw silo yd (cais olweithredol).
Pen Y Mynydd Bach Rhuallt Llanelwy.

01/2004/0180/PO

Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Dinbych.
Ail ddatblygu tir drwy ddymchwel adeilad presennol a chodi ty annedd (cais amlinellol).
Tir ger Plas Castell, Bull Lane, Dinbych.
Ar ôl cynnig i wrthod cais cynllunio ac ar ôl i'r nifer angenrheidiol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i bleidleisio o blaid neu yn erbyn argymhelliad y swyddogion i wrthod caniatâd cynllunio.
Pleidlais Gofnodedig
**Dros** wrthod caniatâd **(18)**
J Butterfield, S Drew, E C Edwards, A E Fletcher-Williams, I M German, M A German, D M Holder, N Hugh-Jones, D Jones, E R Jones, F D Jones, P M Jones, R E Jones, R J R Jones, J S Kerfoot-Davies, D A J Thomas, S Thomas, K E Wells.
**Yn erbyn** gwrthod caniatâd **(4)**
N J Hughes, G Jones, P O Williams, R Ll Williams.
**Ymatal (3)**
E A Owen, F Shaw, C H Williams.
Felly, gwrthodwyd caniatâd.

23/2003/1308/PF

Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams ddiddordeb yn y cais canlynol gan adael y Siambr pan oedd yn cael ei ystyried.
Siaradodd aelod o'r cyhoedd Mr Berwyn Evans (Asiant) o blaid y datblygiad.
Codi anheddle gweithiwr amaethyddol a gosod tanc trin newydd.
Plas Cefn Maen Saron Dinbych.
Ymatalodd y Cynghorydd D Jones rhag pleidleisio.

24/2004/0085/AD

Datganodd J Kennedy ddiddordeb yn y cais canlynol gan adael y Siambr pan oedd yn cael ei ystyried.
Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanynys.
Cadw arwydd hysbysebu cyfeiriadol.
Strawberry Field Cae Rhif AO 0005, Rhewl, Rhuthun.
Yn Amodol ar Reswm Diwygiedig dros Wrthod.
Bydd yr arwydd, oherwydd ei leoliad mewn cefn gwlad agored, yn effeithio ar fwynderau gweledol yr ardal a'r gymdogaeth gyfagos, yn groes i griteria i), ii) o Bolisi GEN 12 Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Ddinbych a Nodyn Cyngor

Technegol 7 (Tachwedd 1996) a byddai'n sefydlu cynsail sylweddol gan wanhau achos yr awdurdod dros wrthod arwyddion eraill ymhell o eiddo busnes yn y cylch.

**CANIATÂD ADEILADAU RHESTREDIG**

30/2004/0189/LB

Arddangos arwydd ar wyneb adeilad wedi'i oleuo o'r tu allan ac arwyddion heb eu goleuo a 6 o lifoleuadau yn lle'r rhai presennol ar y muriau blaen ac ochr.
Tafarn Trefnant, Trefnant. Dinbych.
(Yn amodol ar gyfeirio at CADW).

03/2004/0227/LB

Codi ffens derfyn (Cais Adeilad Rhestredig / Ôl Weithredol).
Bronhaul, Ffordd yr Abaty, Llangollen.
(Yn amodol ar gyfeirio at CADW).

**YMWELIADAU SAFLE**

03/2004/0475/PF

Ar ôl ystyried 7 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth:
(i) Karen Sinclair AC
(ii) Drs A a T Downes, Spindlewood, Fron Bache, Llangollen
(iii) P ac R Stevens, Hafan, Fron Bache, Llangollen
(iv) C a J H Prichard, Beechlands, Fron Bache, Llangollen
(v) W S a K Kingsland
(vi) Pennaeth Trafnidiaeth
(vii) Cyngor Tref Llangollen

Diwygiadau i gynllun ar gyfer 23 o anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio o dan gôd rhif 03/2003/1340/PF yn gofyn am ganiatâd i hebgor 4 byngalo ar leiniau 10, 11, 20 a 21 a chodi 4 o dai yn eu lle.
Tir i'r De o Greenacres Fron Bache Llangollen.
Yn amodol ar Ymweliad Safle er mwyn asesu'r mwynder gweledol ac effaith y datblygiad.

28/2004/0371/PS

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol gyda sylwadau oddi wrth R Pritchard, 9 Bryn Tirion Henllan,
Siaradodd aelod o'r cyhoedd Mr Pritchard (ar ran cymydog) yn erbyn y datblygiad arfaethedig
(Er nad oedd Mr Pritchard wedi cyflwyno cais ffurfiol cyn y cyfarfod am gael siarad penderfynodd y Cadeirydd wneud eithriad i'r protocol yn ôl ei ddisgresiwn).
Manylion trefniadau ar gyfer cysgodi ar gyfer ffenestr ar wal ochr ynghylch amod rhif 2 ar ganiatâd cynllunio côd rhif 28/2003/1292/PF
10 Bryntirion Henllan Dinbych.
Yn amodol ar Ymweliad Safle er mwyn asesu'r effaith ar eiddo cyfagos.

**CAIS A DYNNWYD YN ÔL**

14/2004/0283/PO

Datblygu ar dir i ddibenion trigiannol (cais amlinellol).
Tir rhwng fferm Gelli Las, Bontuchel, Rhuthun.
Cais a Dynnwyd yn Ôl

**1281 MATERION GORFODAETH**

| | |
|---|---|
| ENF/2004/0039 | Codi Silo Yd<br>Pen y Mynydd, Cwm, Dyserth, y Rhyl<br>***PENDERFYNWYD:***<br>(i) Cyflwyno Hysbysiad Gorfodaeth er mwyn sicrhau fod y silo yd yn cael ei symud.<br>(ii) Cychwyn achos erlyn neu weithredu fel arall fel bo'n addas o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn yr unigolyn neu unigolion y cyflwynir Hysbysiad Gorfodaeth neu hysbysiad arall iddynt neu yn erbyn yr hwn neu'r rhai y byddid yn gweithredu'n gyfreithiol yn eu herbyn os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad Gorfodaeth. |
| ENF/2004/00040 | Datganodd J Kennedy ddiddordeb yn y cais canlynol gan adael y Siambr pan oedd yn cael ei ystyried.<br>Arwydd cyfeiriol annibynnol heb awdurdod<br>Strawberry Field Cae Rhif AO 0005, Rhewl, Rhuthun<br>***PENDERFYNWYD:***<br>Cychwyn achos erlyn neu weithredu fel arall fel bo'n addas o dan y Deddfau Cynllunio er mwyn sicrhau cael gwared â'r arwydd heb awdurdod. |

**1282 EITEM 4 Y CYHOEDD YN SIARAD MEWN CYFARFODYDD CYNLLUNIO**

Eglurodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod yr egwyddor o ganiatáu i'r cyhoedd siarad mewn Pwyllgor Cynllunio wedi derbyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Diwygiwyd y Protocol yn wyneb profiad a'i ddwyn ger bron y Pwyllgor Cynllunio er mwyn derbyn awgrymiadau a chymeradwyaeth yr Aelodau.

Mynegodd aelodau bryderon ynghylch y materion canlynol:-

- Y Protocol a thegwch Cynghorwyr Tref / Cymuned yn siarad mewn Pwyllgor.
- Y dull o adael i siaradwyr arfaethedig wybod fod cais i gael ei ystyried.
- Amseru'r terfyn amser ar gyfer enwebu siaradwr.
- Amseru cais Cynghorwyr am Ymweliad Safle.

Cytunodd swyddogion i ddiwygio dogfen y protocol a bydd yn cael ei adnewyddu eto ymhellach yn y flwyddyn.

***PENDERFYNWYD** derbyn y Protocol diwygiedig ar gyfer y Cyhoedd yn Siarad mewn Pwyllgorau Cynllunio, yn amodol ar gynnwys awgrymiadau'r Cynghorwyr.*
***PENDERFYNWYD YMHELLACH** adolygu'r Protocol yn niwedd 2004.*

**1283 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ymweliadau safle, yn codi o Eitem Agenda Rhif 2, sydd i'w cynnal ar 26ain Mai 2004 ac yn cynnwys manylion o aelodaeth gyfredol y Panel Ymweliadau Safle.

***PENDERFYNWYD** cynnal yr ymweliadau safle a gafodd eu cymeradwyo ar ddydd Mercher 26ain Mai 2004.*

**1284 RHESTR O GEISIADAU y DELIWYD Â NHW O DAN HAWLIAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a rannwyd o'r blaen) ynghylch ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a gafodd eu penderfynu ganddo ef o dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1$^{af}$ - 30$^{ain}$ Ebrill 2004.

***PENDERFYNWYD*** derbyn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 pm.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben. Gan mai hwn oedd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynllunio cyn yr etholiadau a chan fod sawl Cynghorydd yn ymddeol, ac yntau yn eu plith, dymunodd y Cadeirydd yn dda i bawb.

Dymunai fynegi ei ddiolch yn benodol i swyddogion [y Gwasanaeth Cynllunio] am eu cymorth, eu proffesiynoldeb a'u caredigrwydd yn ystod ei dymor yn y swydd.

********